**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

**Cyfarfod Aml-Leoliad - Ystafell Gloucester, Neuadd y Ddinas / MS Teams**

**Dydd Mercher, 8 Chwefror 2023 am 2.00 pm**

**Yn Bresennol**: Paula O'Connor (Cadeirydd) fu'n llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| P R Hood-Williams | A J Jeffery | J W Jones |
| M W Locke | S Pritchard | L V Walton |
| T M White | | |

**Aelod(au) Lleyg**

| | |
|---|---|
| Gordon Anderson | Julie Davies |
| Philip Sharman | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Ness Young | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol Dros Dro |
| David Howes | Prif Swyddog y Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Mark Wade | Pennaeth Tai ac Iechyd y Cyhoedd |
| Chris Howell | Pennaeth Rheoli Gwastraff |
| Debbie Smith | Dirprwy Brif Swyddog Cyfreithiol |
| Simon Cockings | Prif Archwiliwr |
| Adrian Chard | Rheolwr Adnoddau Dynol Strategol a Datblygu Sefydliadol |
| Richard Rowlands | Rheolwr yr Uned Cyflwyno Strategol |
| Rachel Lewis | Rheolwr y Prosiect |
| Nick Davies | Archwiliwr |
| Jeremy Parkhouse | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |

**Sefydliadau Cynrychioliadol**

| | |
|---|---|
| Non Jenkins | Swyddfa Archwilio Cymru |
| Jeff Brown | Swyddfa Archwilio Cymru |
| Duncan MacKenzie | Swyddfa Archwilio Cymru |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorwyr M B Lewis, K M Roberts, R C Stewart, D H Hopkins, A S Lewis a Martin Nicholls.

---

## 82 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, datganwyd y buddiannau canlynol: -

Datganodd y Cynghorydd L V Walton gysylltiad personol fel llywodraethwr ysgol â Chofnod rhif.84 - Adroddiad Monitro Archwiliad Mewnol Chwarter Cyntaf 2022/23.

**83 Cofnodion.**

**Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio fel cofnod cywir.

**84 Adroddiad Monitro Archwilio Mewnol - Chwarter 3 2022/23.**

Cyflwynodd y Prif Archwilydd, Simon Cockings, adroddiad 'er gwybodaeth' manwl a oedd yn dangos yr archwiliadau a gwblhawyd ac unrhyw waith arall a wnaed gan y is-adran Archwilio Mewnol yn ystod y cyfnod o 1 Hydref i 31 Rhagfyr 2020.

Cwblhawyd cyfanswm o 10 archwiliad yn ystod y chwarter. Rhestrwyd yr archwiliadau a gwblhawyd yn Atodiad 1, a oedd hefyd yn dangos lefel y sicrwydd a roddwyd ar ddiwedd yr archwiliad a nifer yr argymhellion a wnaed ac y cytunwyd arnynt. Roedd Atodiad 2 yn darparu crynodeb o gwmpas yr adolygiadau a gwblhawyd yn ystod y cyfnod.

Gwnaed cyfanswm o 80 o argymhellion, a chytunodd y rheolwyr i roi pob un ohonynt ar waith, h.y. derbyniwyd 100% o'r argymhellion yn erbyn ein targed o 95%.

Dangosodd dadansoddiad o'r manylion yn Atodiad 3 y cwblhawyd 41 o weithredoedd archwilio o gynllun archwilio 2022/23 erbyn 31/12/22 i'r cam adroddiad drafft o leiaf (32%), ac mae 30 archwiliad ychwanegol ar waith (23%). O ganlyniad, roedd tua 55% o'r gweithgareddau archwilio a gynhwysir yng Nghynllun Archwilio 2022/23 naill ai wedi'u cwblhau neu ar waith.

Mae salwch staff o fewn y Tîm Archwilio Mewnol wedi parhau i fod yn sylweddol yn ystod y chwarter, gyda chyfanswm o 61 diwrnod o absenoldeb wedi'u cofnodi. Parhaodd dau aelod o staff i fod yn absennol oherwydd salwch tymor hir a chyfanswm y salwch cronnus yn y flwyddyn hyd yma oedd 180 diwrnod.

Yn ogystal, gadawodd dau archwilydd y tîm yn ystod chwarter un ac yn dilyn ymgyrch recriwtio lwyddiannus, disgwylir i ddau ymgeisydd ymuno â'r Tîm Archwilio Mewnol erbyn canol mis Tachwedd. Fodd bynnag, collwyd tua 272 diwrnod gan fod y swyddi'n wag.

Ychwanegwyd bod y Prif Archwilydd, yn sgîl y salwch parhaus a'r cyfanswm o 452 o ddiwrnodau a gollwyd hyd yma, wrthi'n adolygu'r Cynllun Archwilio ar gyfer 2022/23. Roedd y Pwyllgor eisoes wedi cael gwybod bod Adolygiadau Trawsbynciol Lefel 1 a'r Archwiliadau Systemau Sylfaenol Lefel 2 wedi'u blaenoriaethu hyd yma i sicrhau bod y rhain wedi'u cwblhau erbyn diwedd y flwyddyn ariannol a dyma oedd y sefyllfa o hyd.

Cwblhawyd y camau dilynol mewn perthynas â'r archwiliad Rhyddid Gwybodaeth, Ceisiadau Mynediad at Ddata gan y Testun a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol. Roedd 9 o'r 13 o argymhellion a wnaed wedi'u rhoi ar waith ond nid

oedd 3 risg ganolig ac 1 argymhelliad risg isel wedi cael sylw ac roedd adolygiad pellach wedi'i drefnu ar gyfer chwarter 4.

Trafododd y pwyllgor y canlynol: -

- Adolygiad thematig caffael ysgolion cynradd - yn benodol sicrhau dyfynbrisiau ar gyfer gwaith gwerth dros £10,000 a'r camau sy'n cael eu cymryd, e.e. hyfforddiant ychwanegol, i fynd i'r afael â'r broblem.
- Adolygiadau trawsbynciol Lefel 1 – Cyflawni'n Well Gyda'n Gilydd, Cyfnodau 1, 2 a 3 y rhaglen, yn enwedig gohirio'r cwmpas o bosib i ystyried risg yr effaith ar gyllideb y cyngor a'r arbedion a gyflwynir o Gyfnodau 1 a 2.
- Cam 3 – Sicrwydd bod yr elfen drawsnewid o Gyflawni'n Well Gyda'n Gilydd ar y trywydd iawn.
- Gwiriadau tân a diogelwch mewn canolfannau preswyl ac awyr agored ac effaith pandemig COVID ar y gwiriadau.
- Effaith diwrnodau a gollwyd oherwydd salwch / swyddi gwag ar yr Adran Archwilio Mewnol, yr effaith gyffredinol ar y Cynllun Archwilio, yr effaith bosib ar y Farn Archwilio a'r camau a gymerwyd i fynd i'r afael â'r effaith.  Dywedodd y Prif Archwilydd ei fod yn disgwyl y bydd 65-70% o'r Cynllun Archwilio wedi'i gwblhau erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.
- Tynnu sylw at yr archwiliadau sydd mewn perygl o beidio â chael eu cwblhau'r flwyddyn ariannol hon a chynnwys manylion o fewn adroddiad drafft y Cynllun Archwilio yn y cyfarfod nesaf.
- Statws yr archwiliadau sydd wedi'u cynnwys yn y cynllun.
- Diwrnodau a neilltuwyd i gynnal yr adolygiad bwrdd gwaith o gyflogau penaethiaid/dirprwy benaethiaid.

Gofynnodd y Cadeirydd i'r Prif Archwilydd ailystyried o bosib yr ymagwedd tuag at archwiliadau sylfaenol, e.e. meintiau samplau/arbedion effeithlonrwydd, wrth gydnabod yr adroddiadau cadarnhaol a dderbyniwyd mewn blynyddoedd blaenorol, i wneud lle i ardaloedd risg uchel eraill a oedd yn cael eu hystyried ar gyfer gohirio.

Gofynnodd hefyd i'r Prif Archwilydd ystyried dulliau callach eraill o gael sicrwydd o archwiliadau dilynol yn lle gorfod ailedrych ar y maes gwasanaeth, oherwydd y pwysau roedd y Tîm Archwilio Mewnol yn ei wynebu ar hyn o bryd.

Diolchwyd i'r Prif Archwilydd a'r Tîm Archwilio Mewnol am eu gwaith a'u perfformiad dan amgylchiadau anodd.

## 85 Adroddiad Dilynol ar Argymhelliad Archwilio Mewnol Chwarter 3 2022/23.

Cyflwynodd y Prif Archwilydd, Simon Cockings, adroddiad 'er gwybodaeth' i'r pwyllgor, a oedd yn darparu statws yr argymhellion a wnaed yn yr archwiliadau hynny lle y gwnaethpwyd gwaith dilynol yn Chwarter 3 2022/23, a oedd yn caniatáu i'r Pwyllgor fonitro'r broses o roi argymhellion a wnaed gan Archwilio Mewnol ar waith.  Darparwyd manylion olrhain argymhellion Archwilio Allanol hefyd.

Darparodd Atodiad 1 grynodeb o'r argymhellion a dderbyniwyd ac a rhoddwyd ar waith.  Darparodd Atodiad 2 fanylion argymhellion na roddwyd ar waith.

Gofynnodd y Pwyllgor am ddiweddariad ar y cynnydd ar y datrysiad meddalwedd i olrhain argymhellion archwilio allanol.

Esboniodd Richard Rowlands, Rheolwr Cyflawni Strategol a Pherfformiad fod cynnydd wedi'i wneud ond ni allai ddarparu dyddiad gorffen disgwyliedig. Ychwanegodd fod datblygu mewnflwch canolog i dderbyn holl adroddiadau Archwilio Cymru wedi cynorthwyo gydag adroddiadau olrhain.

**86 Trosolwg Risg Corfforaethol 2022/23 - Chwarter 3.**

Cyflwynodd Richard Rowlands, Rheolwr Cyflwyno a Pherfformiad Strategol, adroddiad ‘er gwybodaeth’ ar gyfer Chwarter 3 2022/23 a oedd yn darparu trosolwg o statws Risgiau Corfforaethol yn y cyngor i roi sicrwydd i'r Pwyllgor fod risgiau allweddol yn cael eu rheoli'n unol â pholisi a fframwaith rheoli risgiau'r cyngor.

Roedd y canlynol yn crynhoi statws y risgiau a gofnodwyd yn y Gofrestr Risgiau Corfforaethol yn Chwarter 3 2022/23: -

Roedd 5 risg statws coch yn y Gofrestr Risgiau Corfforaethol ar ddiwedd Ch3 2022/23: -

- Rhif Adnabod Risg 94 Cyrhaeddiad a chyflawniad disgyblion.
- Rhif Adnabod Risg 153. Diogelu.
- Rhif Adnabod Risg 159. Rheolaeth Ariannol: Agweddau CATC ar Abertawe Gynaliadwy.
- Rhif Adnabod Risg 222. Digidol, Data a Seiberddiogelwch.
- Rhif Adnabod Risg 334. Argyfwng Costau Byw.

Cofnodwyd bod yr holl risgiau wedi'u hadolygu o leiaf unwaith yn ystod Chwarter 3.

Ychwanegwyd 6 risg newydd at y gofrestr Risgiau Corfforaethol: -

- Rhif Adnabod Risg 333. Cynllun Trawsnewid Corfforaethol.
- Rhif Adnabod Risg 334. Argyfwng Costau Byw.
- Rhif Adnabod Risg 335. Recriwtio a chadw gweithlu.
- Rhif Adnabod Risg 336. Hyfforddiant Gorfodol.
- Rhif Adnabod Risg 337. Cydlyniant cymdeithasol.
- Rhif Adnabod Risg 338. Targed sero net 2030.

Cafodd 2 risg gorfforaethol eu hatal yn ystod Chwarter 3 fel a ganlyn: -

- Rhif Adnabod Risg 276. Adferiad Cyflawni'n Well Gyda'n Gilydd.
- Rhif Adnabod Risg 320. Hyfforddiant Diogelu Gorfodol.

Ni chafodd unrhyw risgiau eu huwchgyfeirio a chafodd 2 risg gorfforaethol eu tynnu oddi ar y Gofrestr Risgiau Gorfforaethol fel a ganlyn: -

- Rhif Adnabod Risg 319. Costau Darparu Cynyddol.

- Rhif Adnabod Risg 221. Argaeledd gofal cartref.

Newidiwyd Statws Coch Melyn Gwyrdd 2 risg gorfforaethol ystod Chwarter 3 fel a ganlyn:

- Rhif Adnabod Risg 309. Oracle Fusion. COCH i FELYN.
- Rhif Adnabod Risg 94. Cyrhaeddiad a chyflawniad disgyblion. MELYN i GOCH.

Trafododd y pwyllgor y canlynol: -

- Cyrhaeddiad a chyflawniad disgyblion yn codi o felyn i goch ar y gofrestr risgiau.
- Asesiadau risgiau y mae'n anodd cael gwared arnynt, yn enwedig mesurau effeithiol i ostwng y risg a darparu gwybodaeth ychwanegol i'r Pwyllgor ddeall risgiau/camau unigol sy'n cael eu cymryd ymhellach.
- Sut mae rheolwyr yn rheoli risg heb unrhyw wybodaeth ynghylch risgiau y mae'n anodd cael gwared arnyn nhw a gweithredoedd lliniarol.
- Cynnydd sy'n cael ei wneud mewn perthynas â'r ateb TGCh rheoli risgiau newydd, a fyddai'n cael ei brofi'n fuan iawn.
- Risgiau corfforaethol newydd a nodi risgiau newydd ac annatod.
- Statws brawychus nodi 6 risg newydd ac edrych ar y ffactorau lliniarol er mwyn lleihau'r risgiau.
- Golygu'r risg ar dudalen mewn perthynas â'r Cynllun Trawsnewid Corfforaethol.
- Argyfwng Costau Byw – Cyngor a ddarperir gan y Tîm Opsiynau Tai mewn perthynas â digartrefedd, tai, cyngor ar ddyledion a’r gefnogaeth a’r cyfathrebiadau i Denantiaid a ddarperir gan y cyngor i dynnu sylw at y gwasanaethau a ddarperir.

Gofynnodd y Cadeirydd i'r canlynol gael ei ychwanegu at adroddiad Olrhain Camau Gweithredu'r Pwyllgor: -

- cyrhaeddiad a chyflawniad disgyblion yn codi o felyn i goch ar y gofrestr risgiau er mwyn i'r Cyfarwyddwr Addysg ddarparu gwerthusiad.
- Darparu diweddariad ynghylch y cyfathrebiadau sy'n cael eu dosbarthu gan y cyngor mewn perthynas â'r risg Argyfwng Costau Byw.

  Cadarnhaodd Mark Wade, Cyfarwyddwr Lleoedd Dros Dro y byddai'n trefnu bod diweddariad yn cael ei ddarparu.

## 87 Cyfarwyddiaeth Lleoedd: Amgylchedd Rheoli Mewnol 2022/2023.

Cyflwynodd Mark Wade, Cyfarwyddwr Lleoedd Dros Dro adroddiad 'er gwybodaeth' a oedd yn darparu amgylchedd rheoli'r Gyfarwyddiaeth Lleoedd, gan gynnwys rheoli risgiau, er mwyn sicrhau: bod swyddogaethau'n cael eu harfer yn effeithiol; bod adnoddau’n cael eu defnyddio’n effeithlon ac effeithiol ac yn economaidd a; bod llywodraethu effeithiol i sicrhau'r trefniadau hyn.

Amlinellodd yr adroddiad y broses o fewn y gyfarwyddiaeth mewn perthynas â rheoli risgiau a nodwyd bod disgwyl i'r Gyfarwyddiaeth Lleoedd gydymffurfio'n llawn wrth adolygu mesurau rheoli, geirfa risgiau a lefelau risg bob mis fel rhan o ymagwedd

gydlynol. Amlinellodd Atodiad A Risgiau Corfforaethol a Chyfarwyddiaeth (y Gyfarwyddiaeth).

Rhennir y risgiau â'r Aelodau Cabinet cyfrifol. Mae'r cyfarfod Perfformiad a Rheoli Ariannol yn gwneud y penderfyniad ynghylch a ddylid codi Risgiau'r Gyfarwyddiaeth i'r Tîm Rheoli Corfforaethol i'w hystyried a phenderfynu a ddylen nhw ddod yn risg gorfforaethol.

Nodwyd bod dwy risg gorfforaethol newydd wedi'u hychwanegu o fewn cyfnod 2022-23:-

- RISG: 334 - Argyfwng Costau Byw.
- RISG: - 338 - Cyrraedd targed Sero Net 2030 Cyngor Abertawe.

Darparwyd manylion rheoli risgiau, parhad busnes, rheoli perfformiad/dangosyddion perfformiad allweddol, gwneud penderfyniadau, rheoli cyllid ac adnoddau, gweithdrefnau twyll ac amhriodoldeb ariannol a chydymffurfio â pholisïau, rheolau a gofynion rheoliadol.

Amlinellwyd bod y gyfarwyddiaeth wedi datblygu tîm rheoli prosiect trawsbynciol i ddatblygu a chyflwyno amrywiaeth eang o brosiectau a rhoddwyd enghreifftiau ohonynt. Adolygwyd cynnydd prosiectau bob mis.

Amlygodd yr adroddiad hefyd nodweddion allweddol dulliau rheoli mewnol, diogelu data a llywodraethu partneriaethau/cydweithio.

Gofynnodd y Pwyllgor nifer o gwestiynau i'r swyddog a ymatebodd yn briodol. Roedd trafodaethau'n cynnwys y canlynol: -

- Y risg isel bresennol a roddwyd i'r targed Sero Net 2030 oherwydd ei fod yn risg newydd ac yn gynnar yn ei chynnydd.
- Prosesau a ddilynwyd o fewn y Gyfarwyddiaeth mewn perthynas â risg, yn enwedig yr ymagwedd drawsbynciol a ddefnyddir a'r rheolaeth gyffredinol o risg.
- Rheoli gwariant a rheoli staff ar draws y Gyfarwyddiaeth.
- Cydnabyddiaeth o sut roedd y Gyfarwyddiaeth Lleoedd yn cynnwys llawer o staff rheng flaen a phwysigrwydd sicrhau bod y gwasanaethau hanfodol ar gael bob dydd, sy'n ddisgwyliedig gan y cyhoedd.
- Darparu cerbydau casglu gwastraff newydd.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Cyfarwyddwr Dros Dro am ddarparu adolygiad manwl o'r Gyfarwyddiaeth Lleoedd.

## 88 Adroddiad Archwilio Rheoli Absenoldeb Gwasanaethau Cymdeithasol Diweddariad.

Cyflwynodd Adrian Chard, Rheolwr Adnoddau Dynol Strategol a Datblygu Sefydliadol, a Dave Howes, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol ddiweddariad 'er gwybodaeth' am yr adroddiad archwilio Rheoli Absenoldeb mewn perthynas â Chyfarwyddiaeth y Gwasanaethau Cymdeithasol.

Esboniwyd, yn unol â phrosiect Oracle Fusion, fod dangosfwrdd i reolwyr yn cael ei ddatblygu ac roedd yn agos at fod yn barod i'w brofi gan ddefnyddwyr. Byddai hyn yn darparu gwybodaeth gyfredol i bob rheolwr â chyfrifoldeb rheoli absenoldeb ac yn rhoi gwybodaeth iddo am y canlynol:-

- Absenoldeb staff oherwydd salwch (o fewn ei ardal yn unig) a dyddiau a gollwyd.
- Cyfweliadau dychwelyd i'r gwaith sydd heb eu cyflawni.
- Cyfarfodydd cofnod o gamau gweithredu sydd heb eu cyflawni.

Byddai'r wybodaeth hon hefyd ar gael i reolwr y "rheolwr", gan ddarparu data a gwybodaeth ychwanegol i wella Rheoli Absenoldeb ar draws yr Awdurdod.

Roedd y nodiadau atgoffa misol i Reolwyr wedi cael effaith gadarnhaol o ran ymholiadau a cheisiadau am hyfforddiant ychwanegol. Roedd datblygu'r Modiwl Dysgu yn Fusion yn mynd yn ei flaen a byddai'n cynnig offeryn ychwanegol i wella cydymffurfiaeth ymhellach wrth gwblhau hyfforddiant rheoli salwch gorfodol. Roedd Cynghorwyr Rheoli Absenoldeb hefyd wedi'u penodi yn y Cyfarwyddiaethau Addysg, Lleoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol i gefnogi Rheolwyr i sicrhau cydymffurfiaeth â'n Polisi Absenoldeb Salwch ac i nodi ffyrdd rhagweithiol o reoli a lleihau salwch.

Darparwyd dadansoddiad o ddiwrnodau salwch hirdymor a diwrnodau salwch ysbeidiol yn yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol fesul Adran o fewn pob Ardal Wasanaeth ar gyfer y Cyfnod 1 Ebrill i 31 Rhagfyr 2022. Cafodd y 5 rheswm absenoldeb uchaf yn seiliedig ar ddiwrnodau gwaith a gollwyd am y cyfnod 1 Ebrill i 31 Rhagfyr 2022 hefyd eu darparu.

Roedd yr adroddiad yn amlinellu manylion y gefnogaeth i fynd i'r afael â lefelau uchel o achosion sy'n symud ymlaen i 6 mis a throsodd; gweithio ar y cyd â'r Gwasanaeth Iechyd Galwedigaethol i fonitro'r defnydd gorau o atgyfeiriadau ac apwyntiadau Iechyd Galwedigaethol; hyfforddiant, arweiniad ac uwchsgilio; cefnogaeth gyda chydymffurfedd rheolwyr; Siarter Dying to Work; Cymorth a chyngor AD o ran straen, Coronafeirws ac absenoldebau salwch difrifol; a chymorth Iechyd Galwedigaethol.

Tynnodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol sylw at yr heriau y mae'r Adran yn eu hwynebu, gan gynnwys lefelau uchel o salwch, yn enwedig ym maes gofal cartref, a'r amgylchiadau anodd a oedd yn rhoi pwysau ychwanegol ar staff, a oedd wedi arwain at lefelau uchel o absenoldeb oherwydd straen.

Trafododd y pwyllgor y canlynol: -

- Cydnabod y cymorth sy'n cael ei ddarparu gan Iechyd Galwedigaethol/AD a'r gefnogaeth sy'n cael ei darparu i staff, a oedd yn bwysig iawn.
- Heriau sy'n cael eu hwynebu gan ddarparwyr annibynnol/y trydydd sector a'r cymorth sy'n cael ei ddarparu gan y cyngor mewn sefyllfaoedd 'hanfodol'.
- Defnyddio gweithwyr asiantaeth i sicrhau darpariaeth gwasanaethau.
- Cymaryddion yn cael eu darparu mewn adroddiadau yn y dyfodol er mwyn caniatáu i'r Pwyllgor arsylwi a yw absenoldebau'n lleihau neu beidio.
- Adolygu achosion sylfaenol straen a'r cymorth a ddarperir i staff ar ôl iddynt ddychwelyd i'r gwaith.

- Effaith cyflwyno Ymgynghorwyr Rheoli Absenoldeb wrth leihau lefelau salwch yn sylweddol.
- Mynd i'r afael â heriau salwch yn y dyfodol.
- Cyflwyno mesurau y bwriadwyd iddynt leihau salwch yn y dyfodol.

**89 Adroddiad Archwilio Cyflogi Staff Asiantaeth 2019/20 - Diweddariad Chwefror 2023.**

Cyflwynodd Adrian Chard, Rheolwr Adnoddau Dynol Strategol a Datblygu Sefydliadol a Chris Howell, Pennaeth Gwastraff, Glanhau a Pharciau adroddiad 'er gwybodaeth' a oedd yn rhoi'r diweddaraf am y camau gweithredu sy'n deillio o'r adroddiad Archwilio Cyflogi Staff Asiantaeth.

Roedd yr adroddiad yn amlinellu'r wybodaeth ganlynol, y gofynnwyd amdani’n flaenorol gan y Pwyllgor: -

- Darparu manylion gweithwyr asiantaeth sy'n cael eu cyflogi am fwy na 12 mis.
- Darparu manylion defnydd uchel o weithwyr asiantaeth yn erbyn
- lefelau salwch uchel.
- Darparu ffigurau gweithwyr asiantaeth o'r gwasanaethau Parciau a Glanhau sydd wedi'u huno.

Darparwyd manylion y trefniadau cydymffurfio a chyfanswm nifer y Gweithwyr Asiantaeth a gyflogwyd drwy asiantaethau dan gontract corfforaethol (Staffline ac RSD Social Care).

Nodwyd bod y niferoedd wedi aros yn gyson yn y Gyfarwyddiaeth Lleoedd ac wedi lleihau'n gyffredinol yn y gwasanaethau Gwastraff, Parciau a Glanhau. Nodwyd ymhellach fod y niferoedd asiantaeth yn adlewyrchu nifer y gwahanol unigolion a gyflogwyd drwy'r mis, ac nid oedd yn adlewyrchu nifer cyfartalog y staff asiantaeth a gyflogwyd ar unrhyw ddiwrnod penodol, sef oddeutu 70.

Roedd cynnydd hefyd wedi bod yn y niferoedd yn y Gwasanaethau Oedolion i helpu i ymateb i'r heriau o ran adnoddau sy'n wynebu'r maes gwasanaeth hwn. Gweithwyr rhan-amser oedd y rhain yn bennaf ac roedd rhai yn gweithio mewn sawl rôl.

Cyfanswm cost gweithwyr asiantaeth a’r gwariant arnynt ar gyfer 2021/22 oedd £5,879,140. Manylwyd ar y gwariant misol hyd at Awst 2022.

Amlinellodd y Pennaeth Gwastraff, Glanhau a Pharciau nifer yr hyfforddeiaethau a gyflogwyd gan y Maes Gwasanaeth yn ystod y flwyddyn flaenorol.

Trafododd y pwyllgor y canlynol: -

- Pryder ynghylch lefelau uchel gweithwyr asiantaeth/diffyg gweithwyr cymdeithasol cymwys yn yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol ac ymdrechion recriwtio/cadw staff sy'n cael eu gwneud gan yr Awdurdod, gan gynnwys gweithio rhanbarthol gydag awdurdodau lleol eraill.

- Camau gweithredu lliniarol sy'n cael eu cymryd i sicrhau nad oes dim yn llesteirio’r broses recriwtio.
- Darparu'r ffigurau a’r gwariant diweddaraf mewn perthynas â'r defnydd o weithwyr asiantaeth ar draws yr Awdurdod/adroddiad briffio i'w ddosbarthu gydag adroddiad Olrhain y Pwyllgor.
- Pryder ynghylch lefelau staffio mewn rhai gwasanaethau a'r pwysau ychwanegol sydd ar staff.

## 90 Adroddiadau Archwilio Cymru - Parodrwydd y Sector Cyhoeddus ar gyfer dod yn Garbon Sero Net erbyn 2030.

Darparwyd yr adroddiadau canlynol 'er gwybodaeth' fel rhan o adroddiadau Archwilio Cymru ar barodrwydd y sector cyhoeddus ar gyfer dod yn garbon sero net erbyn 2030: -

- Archwilio Cymru - Parodrwydd y sector cyhoeddus ar gyfer dod yn garbon sero net erbyn 2030
- Parodrwydd y sector cyhoeddus ar gyfer dod yn garbon sero net erbyn 2030 - Adroddiad Tystiolaeth
- Diweddariad ar y cynnydd o ran Sicrwydd ac Asesu Risgiau
- Ymateb Cyngor Abertawe - Rhagfyr 2022
- Sero Net 2030 Cyngor Abertawe - Cynllun wedi'i brisio

Dywedodd y Cadeirydd fod yr adroddiadau wedi cael eu trafod yng nghyfarfod y Panel Craffu Perfformiad Newid yn yr Hinsawdd a Natur ar 10 Ionawr 2023 ac y cynigiwyd, er mwyn osgoi dyblygu, ohirio'r adroddiadau nes bod manylion y trafodaethau hynny ar gael.

Dywedodd cynrychiolwyr Archwilio Cymru y gallai'r Pwyllgor gael sicrwydd o'r gwaith a gwblhawyd hyd yma gan y cyngor.  Ychwanegwyd mai'r prif ffocws oedd yr hyn yr oedd y cyngor yn ei wneud i fynd i'r afael â'r mater.  Byddai Archwilio Cymru yn darparu ymateb ac yn rhoi'r diweddaraf am y cynnydd mewn cyfarfod yn y dyfodol.

Diolchodd y Cadeirydd i gynrychiolwyr Archwilio Cymru am ddod i'r cyfarfod.

**Penderfynwyd** gohirio'r eitem i gyfarfod yn y dyfodol/yn amodol ar y trafodaethau a ddigwyddodd yng nghyfarfod y Panel Craffu Perfformiad Newid yn yr Hinsawdd a Natur.

## 91 Adroddiad Olrhain Camau Gweithredu'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

Adroddwyd am Adroddiad Olrhain Camau Gweithredu'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu 'er gwybodaeth'.

Nododd y Cynghorydd L V Walton fod hyfforddiant y Pwyllgor ar ddeall adroddiadau ariannol wedi cael ei symud o 28 Chwefror i ychydig cyn y cyfarfod nesaf ar 8 Mawrth 2023.  Gofynnodd i'r wybodaeth a fydd yn cael ei darparu yn y sesiwn hyfforddi gael ei dosbarthu ymlaen llaw.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at y diweddariad yng Nghofnod Rhif 70 - Adolygiad Perfformiad Blynyddol 2021-22 a gofynnodd i'r Pwyllgor gael ei ddiweddaru ynghylch y newidiadau i'r adroddiad cyn yr adroddir amdano i'r cyngor ar 30 Mawrth 2023.

Cyfeiriodd y Cadeirydd hefyd at y diweddariad yng Nghofnod Rhif 62 - holiadur CIPFA gan ddweud y byddai'r Pwyllgor yn derbyn holiadur yn fuan iawn ar effeithiolrwydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

**92 Cynllun Gwaith y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.**

Adroddwyd am Gynllun Gwaith y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio 'er gwybodaeth'.

Daeth y cyfarfod I ben am 4.03 pm

**Cadeirydd**